**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0890/21

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Mawrth 2021

Annwyl Llyr,

Rwy'n amgáu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid - *Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.*

Roeddwn yn gweld yr adroddiad yn grynodeb defnyddiol o'r hyn sydd wedi'i gyflawni, ynghyd â'r heriau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn falch o dderbyn un ar ddeg o'r deuddeg argymhelliad yn llawn, a derbyn mewn egwyddor argymhelliad 11 (lle mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn gyfrifol am gyflawni).

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu ar y broses gweithredu cyllidol yn ystod y tymor Senedd hwn.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid o'r enw 'Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a’r Fframwaith Cyllidol'**

---

Mae llwyddiant y broses o gyflwyno'r tair treth Gymreig a ddatganolwyd gan Ddeddf Cymru 2014 wedi bod yn gyflawniad sylweddol yn ystod tymor y Senedd hon ac mae wedi cynyddu atebolrwydd Llywodraeth Cymru a'r Senedd i bobl Cymru. Mae'r refeniw o'r Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Chyfraddau Treth Incwm Cymru – ynghyd ag ardrethi annomestig (a ddatganolwyd yn ariannol yn 2015) – bellach yn cyllido tua 20% o wariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi bod yn cael eu casglu a'u gweinyddu ers bron i dair blynedd gan Awdurdod Cyllid Cymru, sef adran anweinidogol gyntaf Cymru. Croesawaf y ffaith bod y Pwyllgor wedi cydnabod y cyfraniad pwysig a wneir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Mae ein *Fframwaith Polisi Trethi* (Mehefin 2017) yn disgrifio'r hyn rydym yn anelu at ei gyflawni drwy ein trethi Cymreig, gan gynnwys ein hegwyddorion – sef ceisio creu trethi teg a sefydlog sy'n cefnogi amcanion polisi ehangach ac yn helpu i sicrhau cydraddoldeb. Rwy'n ddiolchgar i sylw cefnogol y Pwyllgor fod y trethi Cymreig yn deg i fusnesau a phobl.

Mae'r Fframwaith Cyllidol yn chwarae rôl hanfodol drwy nodi'r trefniadau ar gyfer datganoli trethi. Mae hyn wedi gweithio'n effeithiol, ar y cyfan, ond mae achos cryf dros gynyddu ein terfyn benthyca cyfalaf a sicrhau bod gennym fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio Cronfa wrth Gefn Cymru. Mae'n dda gennyf nodi bod y Pwyllgor yn cytuno â'r ddau bwynt hyn.

Mae cynnwys ffactor sy'n seiliedig ar anghenion yn fformiwla Barnett, y cytunwyd arno fel rhan o'r Fframwaith Cyllidol, wedi helpu i sicrhau lefelau tecach o gyllid i Gymru. Hyd yma, mae wedi darparu tua £650m ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, dylid sefydlu dull gweithredu cyson sy'n seiliedig ar anghenion i'r DU gyfan.

Fel y nodir yn ein hadroddiad *Diwygio ein hundeb: cydlywodraethu yn y DU* (Hydref 2019), asiantaeth gyhoeddus sy'n atebol i bob un o'r pedair gweinyddiaeth ar y cyd ddylai fod yn gyfrifol am weithredu'r trefniadau hyn ar gyfer darparu adnoddau, gan gynnwys pennu union fanylion grym gwario a therfynau benthyg y gweinyddiaethau datganoledig. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ddatgan ei gefnogaeth i broses annibynnol.

Croesawaf adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol ac rwyf wedi nodi fy ymatebion i'r argymhellion isod.

**Ymatebion i'r argymhellion yn yr adroddiad**

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adeiladu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth bresennol o drethi Cymru gyda'r cyhoedd, busnesau a gweithwyr proffesiynol i wella ymwybyddiaeth a sicrhau mwy o ymgysylltu â datganoli cyllidol yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn.

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig parhau i godi ymwybyddiaeth o drethi Cymreig ac rydym yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau cyllidol mawr, megis Cyllideb Cymru, er mwyn gwella dealltwriaeth o oblygiadau datganoli cyllidol i bobl a busnesau. Mae arolygon hyd yma wedi dangos bod ymwybyddiaeth o Gyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) wedi cynyddu 14%. Fe'i mesurwyd ychydig ar ôl i'r cyfraddau gael eu cyflwyno pan gyrhaeddodd datganoli cyllidol yng Nghymru ei gynulleidfa ehangach. Mae rhagor o waith ymchwil wrthi'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd.

Mae cyfrifiannell Cyfraddau Treth Incwm Cymru, a newidiadau a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2020 i'r Crynodeb Treth Blynyddol, yn gwella dealltwriaeth drwy esbonio'r ffordd y caiff atebolrwydd i dalu treth ei gyfrifo a dangos sut mae'r dreth yn cael ei gwario. Mae'r Crynodeb Treth Blynyddol yn dangos faint o CTIC a delir gan drethdalwyr Cymreig, gan gynnwys dolen i gyfrifiannell CTIC a fydd yn rhoi dadansoddiad lefel uchel sy'n dangos i ble mae cyfraniadau unigol wedi'u dyrannu rhwng gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru[1]. Mae hyn yn adeiladu ar wybodaeth ac ymwybyddiaeth bresennol o drethi Cymreig yng Nghymru drwy helpu pobl i gysylltu treth a gwariant a thynnu sylw at rai o'r meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru a'r ffordd y mae cyfraniadau treth yn helpu i gefnogi'r meysydd hynny.

Mae gennym bartneriaethau gwaith cryf ag Awdurdod Cyllid Cymru a CThEM er mwyn i wybodaeth allweddol allu cael ei lledaenu'n gyflym ac yn effeithiol drwy sianeli gweithredol sefydledig. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda chyrff proffesiynol a llunio gweminarau a fideos i weithwyr trethi proffesiynol. Mae'r Grŵp Ymgysylltu ar Drethi yn ein galluogi i drafod datblygiadau o ran polisi trethi â'r rhai a all gynrychioli barn trethdalwyr Cymreig.

Ceir manylion pellach am weithgarwch ymgysylltu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn Adran 13 o'r Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 4 Mawrth.[2]

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a CThEM weithio'n agos i sicrhau strategaeth ymgysylltu integredig a chydategol ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru.**

Ymateb: Derbyn.

---

[1] Cyfrifiannell Crynodeb Treth Blynyddol Cymru:
https://llyw.cymru/cyfrifo-gwariant-treth-incwm-cymru

[2] *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2021* (Mawrth 2021):
https://llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2021

Mae'r ymateb i argymhelliad 1 yn cynnwys cyfeiriad at y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a CThEM ar godi ymwybyddiaeth o CTIC. At hynny, mae Llywodraeth Cymru a CThEM wedi cydweithio ar y strategaeth gyfathrebu ar gyfer CTIC.

Y brif neges am CTIC i gwsmeriaid yng Nghymru yw ei bod yn bwysig sicrhau bod manylion eu cyfeiriad yn gyfredol, er mwyn i CThEM allu adnabod trethdalwyr Cymreig yn gywir ar ei systemau. Anfonir negeseuon yn atgoffa cwsmeriaid i wneud hyn drwy ohebiaeth reolaidd CThEM â threthdalwyr, er enghraifft drwy awgrymiadau ar ei wasanaethau digidol. Mae hefyd yn ofynnol i gwsmeriaid ddarparu neu gadarnhau manylion eu cyfeiriad ar ffurflenni Hunanasesu. Mae gan CThEM ganllawiau ar gov.uk sy'n ymwneud yn benodol â CTIC, gan gynnwys canllawiau i gwsmeriaid y mae eu sefyllfa o ran preswylio yn fwy cymhleth. Mae CThEM yn monitro faint o gyswllt cwsmeriaid y mae'n ei gael mewn perthynas â CTIC, a rhoddir ffigurau i Lywodraeth Cymru mewn Adroddiadau Gwybodaeth Busnes chwarterol.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CThEM er mwyn sicrhau y caiff unrhyw anghenion cyfathrebu yn y dyfodol eu nodi.

<u>Goblygiadau Ariannol:</u> Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 3: Mae gan y Senedd rôl hefyd o ran addysgu, ymgysylltu a hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch datganoli cyllidol ac mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd ystyried sut y gall gyfrannu at hyn yn y Chweched Senedd.**

<u>Ymateb:</u> Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rôl bwysig y mae'r Senedd yn ei chwarae o ran addysgu, ymgysylltu a hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch datganoli cyllidol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio a rhannu arferion gorau â Chomisiwn y Senedd mewn perthynas ag ymgysylltu â dinasyddion ynghylch datganoli cyllidol yng Nghymru.

<u>Goblygiadau Ariannol:</u> Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar sut y mae'n datblygu ystyriaethau o ran targedu grwpiau penodol er mwyn hybu refeniw trethi yng nghyd-destun yr amcanion ehangach o wneud Cymru'n wlad deg a chynhwysol sy'n darparu ar gyfer ei holl ddinasyddion, heddiw ac yn y dyfodol.**

<u>Ymateb:</u> Derbyn.

Mae Adran 1 o'r Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2021, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 4 Mawrth, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae'n eu cymryd i atgyfnerthu sylfaen drethu Cymru drwy gefnogi dinasyddion Cymru[3].

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gynnal ymchwil i feithrin gwell dealltwriaeth o'r sylfaen drethu yng Nghymru. Fel rhan o'r ymchwil barhaus hon, mae dadansoddiad manwl o'r sylfaen drethu ar gyfer CTIC wedi'i ddarparu yn Atodiad 2 i'r Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru.

---

[3] *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2021* (Mawrth 2021):
https://llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2021

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn credu dylai Llywodraeth Cymru gael y pwerau deddfwriaethol i ymateb yn gyflym i newidiadau polisi treth ond mae'n argymell y dylai unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol sy'n sail i'r pwerau hyn ddarparu mai dim ond mewn amgylchiadau priodol y defnyddir y pwerau, megis er mwyn osgoi ymddygiad ystumiol neu pan fydd angen mynd i'r afael â chyfleoedd osgoi neu efadu ar unwaith.**

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu diddordeb y Pwyllgor mewn datblygu bil posibl i'w gwneud yn bosibl i newidiadau gael eu gwneud ar fyr rybudd i Ddeddfau Trethi Cymru drwy reoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mai dim ond mewn nifer o amgylchiadau penodol y dylid defnyddio pwerau o'r fath.

Yn dilyn cyhoeddi'r crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad, *Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*[4] ar 21 Rhagfyr 2020, mae swyddogion yn drafftio deddfwriaeth er mwyn bod yn barod os bydd y Senedd nesaf yn dewis bwrw ymlaen â hyn. Bwriedir i'r gallu i newid deddfwriaeth trethi yn gyflym, alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i senarios lle mae'n ddymunol i'r newid ddod i rym ar unwaith neu'n fuan iawn wedi hynny. Gall newid o'r fath fod yn briodol lle mae angen i Drysorlys Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru 'gau' cynlluniau osgoi talu trethi ar unwaith neu er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i newidiadau mewn polisi trethi a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi rhagflaenol y DU (hynny yw, un lle mae gennym dreth ddatganoledig gyfatebol). Yn y senario hwn, byddai'r ddeddfwriaeth yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru ddull cymesur o ddiogelu refeniw Cymru.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei gwaith yn archwilio dichonoldeb ac effaith disodli'r dreth gyngor ac Ardrethi Annomestig â threth gwerth tir leol. Gan gydnabod yr effaith y gallai COVID-19 fod wedi'i chael ar y gwaith hwn, dylid darparu hyn i Bwyllgor Cyllid y Chweched Senedd.**

Ymateb: Derbyn.

Mae *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau,* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror, yn rhoi'r diweddariad diweddaraf ar ein hystyriaethau ynghylch diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru[5].

Mae'r adroddiad diweddaraf yn dwyn ynghyd grynodeb o ymchwil i ddichonoldeb disodli'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig â threth gwerth tir leol a'n hymchwil ni i opsiynau eraill

---

[4] *Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru* (Gorffennaf 2020):
https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru

[5] *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau* (Chwefror 2021):
https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-yng-nghymru-crynodeb-or-canfyddiadau

ar gyfer trethi lleol yng Nghymru. Er bod astudiaeth gychwynnol gan Brifysgol Bangor, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dod i'r casgliad y gallai treth gwerth tir leol godi digon o refeniw i ddisodli'r trethi lleol presennol, mae hefyd yn dod i'r casgliad nad yw'r gofynion o ran seilwaith data ar gyfer rhoi treth gwerth tir leol ar waith yn cael eu bodloni ar hyn o bryd. Down i'r casgliad, ar hyn o bryd, y gallai treth gwerth tir leol gyflawni ein prif amcan o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol mewn ffordd fwy graddoledig. Fodd bynnag, byddai nifer enfawr o ddewisiadau polisi i'w hystyried a'u lleihau er mwyn sicrhau bod treth gwerth tir leol yn darparu system well o gymharu â'r trethi lleol presennol. Byddai creu'r fframwaith cyfreithiol, y seilwaith gwybodaeth a'r trefniadau gweithredol yn dasg sylweddol.

Mae'r *Crynodeb o'r Canfyddiadau* hefyd yn ymdrin â nifer o syniadau ar gyfer diwygio a gafodd eu cyfleu i'r Pwyllgor yn ystod ei ymarfer casglu tystiolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i opsiynau ar gyfer diwygio'r dreth gyngor, gan gynnwys ailbrisio ac ail-frandio neu systemau cymesur. Mae'r *Crynodeb o'r Canfyddiadau* hefyd yn cynnwys ystyriaeth gychwynnol o ddulliau amgen o ymdrin â methodoleg brisio. Mewn perthynas ag ardrethi annomestig, mae'n dwyn ynghyd y gwahanol syniadau a gynigiwyd i'w hystyried yn y dyfodol os na ffefrir opsiynau mwy radical megis treth gwerth tir. Ar wahân i drethi tir ac eiddo, mae'r *Crynodeb o'r Canfyddiadau* hefyd yn cynnwys ystyriaeth gychwynnol o ran a ellid seilio trethi lleol yn fwy ar ddangosyddion eraill o'r gallu i dalu, megis incwm aelwydydd.

<u>Goblygiadau Ariannol:</u> Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 7: Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymateb gyda’i barn ar ddichonoldeb datganoli treth enillion cyfalaf ac a allai hyn ddisodli’r angen i geisio cymhwysedd ynghylch y dreth ar dir gwag.**

<u>Ymateb:</u> Derbyn.

Mae'r rhesymeg dros geisio cymhwysedd ynghylch y dreth ar dir gwag yn seiliedig ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau y gellir gwneud defnydd economaidd o dir gwag a safleoedd segur unwaith eto. Wrth asesu dichonoldeb datganoli trethi ychwanegol, byddai angen inni fod yn glir ynghylch y rhesymeg dros geisio pwerau o'r fath.

Byddai set lawer ehangach o ystyriaethau polisi mewn perthynas â cheisio datganoli treth enillion cyfalaf ar drafodiadau eiddo. Mae risg y byddai'r cynnig yn arwain at ganlyniadau anfwriadol i'r farchnad eiddo yng Nghymru a byddai heriau ymarferol hefyd yn gysylltiedig â gweithredu cynllun o'r fath yng Nghymru, yn ogystal ag ystyriaethau ynghylch yr effaith ar refeniw Llywodraeth Cymru.

Gwyddom o'n profiad hyd yma o geisio cymhwysedd ynghylch treth ar dir gwag nad yw datganoli pwerau trethu ychwanegol yn broses hawdd. Ar hyn o bryd, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau y caiff yr hyn a ddylai fod yn dreth symlach o ran rhesymeg ac effaith, ei ddatganoli.

<u>Goblygiadau Ariannol:</u> Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd olrhain effeithiau Cyfraddau Treth Incwm Cymru dros amser ac mae'n argymell y dylai'r prosiect i ddarparu data hydredol fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a CThEM.**

Ymateb: Derbyn.

Fel rhan o ymgysylltiadau lefel gwaith rheolaidd i helpu'r gweinyddiaethau datganoledig i gyflawni eu hamcanion polisi a'u hamcanion dadansoddol, mae'r Gweithgor Dadansoddol (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o CThEM, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Chomisiwn Cyllidol yr Alban) yn ystyried dyluniadau a methodolegau posibl ar gyfer set ddata hydredol.

Ataliwyd y gwaith hwn dros dro yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd penderfyniad CThEM i roi blaenoriaeth i ddatblygu Canllaw Cyflym CTIC a'r ffocws ar helpu i lunio'r rhagolygon o dreth incwm ddatganoledig yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru a Chyllideb Llywodraeth y DU, y cyhoeddwyd y naill ar 2 Mawrth a'r llall ar 3 Mawrth 2021.

Disgwylir i'r set ddata hydredol, drwy gytundeb â'r Gweithgor Dadansoddol, fod yn rhan o gynllun gwaith Tîm Datganoledig CThEM ar gyfer misoedd y gwanwyn a'r haf yn 2021, cyn i gylchoedd y digwyddiadau cyllidol nesaf ddechrau yn yr hydref.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar sut mae'n adolygu gweithgareddau CThEM i leihau gwallau codio ac yn monitro'r set ddata o drethdalwyr Cymru i nodi mudo ar draws ffin Cymru a Lloegr trwy gydol y flwyddyn.**

Ymateb: Derbyn.

Fel rhan o'i gyfrifoldeb am weinyddu CTIC, mae gan CThEM raglen addysg a chydymffurfiaeth barhaus i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chodau C ac mae hefyd yn cyhoeddi erthyglau a negeseuon atgoffa mewn bwletinau rheolaidd i gyflogwyr. Mae'n ofynnol i CThEM adnabod trethdalwyr Cymreig a sicrhau bod y boblogaeth o drethdalwyr yn parhau'n gyfredol. Mae CThEM yn cymryd nifer o gamau i sicrhau bod ei ddata cyfeiriadau yn gyfredol a'u cadarnhau drwy eu cymharu â ffynonellau eraill.

Nid oes unrhyw gofnod/set ddata bendant o drethdalwyr Cymreig y gellir ei (d)defnyddio i farnu'r dulliau adnabod. Mae cronfa cyfeiriadau trethdalwyr Cymreig yn darged sy'n newid yn barhaus wrth i bobl symud i mewn ac allan o Gymru. Fodd bynnag, mae'r archwiliadau o'i ddata cyfeiriadau yn erbyn setiau data trydydd parti wedi galluogi CThEM i gadarnhau, drwy gyfeirio at ffynonellau allanol, y cyfeiriadau sydd ganddo am hyd at 98% o'r boblogaeth. Rydym wedi cytuno i gynnal ymarfer gwrthdaro â data trydydd parti eleni a disgwylir i ganlyniadau'r sgan gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2021.

Mae gwaith ar y mater hwn yn gwella'n barhaus ac mae dull CThEM o ymdrin â methiant i gymhwyso Codau C yn gywir yn canolbwyntio fwyfwy ar ohebiaeth wedi'i thargedu at gyflogwyr. Mae canlyniadau'r gwaith hwn wedi bod yn gadarnhaol ac, ym mis Ionawr 2021, roedd y gyfradd wallau wedi gostwng i 2.8%, o gymharu â 10.4% ym mis Mehefin 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu gweithgareddau CThEM yn y maes hwn yn rheolaidd, a rhoddir diweddariadau yng nghyfarfodydd Bwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Mae

swyddogion Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod CThEM yn bodloni gofynion a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac yn herio, lle y bo angen, er mwyn sicrhau bod gwaith ar y mater yn parhau i wella. Mae CThEM yn hyderus y dylai nifer y gwallau ostwng eto cyn y sgan nesaf, yn ddiweddarach yn 2021.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 10: Gan nodi barn Llywodraeth Cymru bod amseriad digwyddiadau cyllidol y DU yn fater i Lywodraeth y DU, mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd i’r afael â’r angen am fwy o sicrwydd drwy ddyraniadau cyllid aml-flwyddyn ac eglurder ynghylch amseriad digwyddiadau cyllidol y DU gan Lywodraeth y DU.**

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod y problemau a achosir gan ddyraniadau cyllid ar gyfer un flwyddyn.

Cynhaliwyd yr Adolygiad o Wariant aml-flwyddyn mwyaf diweddar yn 2015, er i Lywodraeth y DU gyhoeddi y byddai un yn cael ei gynnal yn 2019 a 2020. Byddai adolygiad o wariant aml-flwyddyn yn ein galluogi i gynllunio ein cyllideb eu hunain dros orwel amser hwy a rhoi mwy o sicrwydd i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Wedi dweud hynny, oherwydd yr angen i ymateb i bandemig COVID-19, mae'n anochel bod y pwyslais wedi bod ar gynllunio cyllideb ar gyfer y tymor byr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae i'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amseriad digwyddiadau cyllidol y DU oblygiadau i'r broses o gynllunio cyllideb Llywodraeth Cymru ei hun ac mae'n golygu ei bod yn fwy anodd sicrhau bod y Senedd yn cael digon o gyfle i graffu arni. Mae effaith yr ansicrwydd yn fwy am fod proses y gyllideb bellach yn gorfod ystyried refeniw o drethi datganoledig. Cydnabuwyd hyn yn yr adolygiad ar y cyd â'n trefniadau gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, a gyhoeddwyd ar ei gwefan, a dynnodd sylw at y ffaith ein bod wedi cwblhau cylch cyllidebol cyfan 2020-21 heb ragolwg macro-economaidd wedi'i ddiweddaru.

Mae goblygiadau'r ansicrwydd ynghylch amseriad digwyddiadau cyllidol y DU hefyd wedi'i gydnabod yn ehangach Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad (OECD), yn ei adolygiad o'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn argymell y dylid pennu'r dyddiadau ar gyfer digwyddiadau cyllidol y Llywodraeth a rhagolygon cysylltiedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol mewn deddfwriaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno'r achos dros adolygiadau aml-flwyddyn o wariant i Lywodraeth y DU a phwyso am ragor o sicrwydd a rhybudd ynghylch amseriad digwyddiadau cyllidol y DU.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 11: Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar sut mae’n sicrhau bod Trysorlys EM yn cyflawni o ran yr argymhelliad a dderbyniodd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU y dylid mynd i’r afael â’r diffyg tryloywder ynghylch penderfyniadau cyllido.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Byddai Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi gwella tryloywder ynglŷn â phenderfyniadau cyllido. Rydym wedi cyflwyno'r achos hwn i Drysorlys EM dro ar ôl tro ac wedi trafod y mater yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn. Yn wir, byddem yn mynd ymhellach na gwella tryloywder, am ein bod yn credu y dylai'r system bresennol gael ei disodli gan drefniadau cyllido y cytunwyd arnynt ar y cyd, gan roi terfyn ar gytundebau dwyochrog er mwyn dod â chysondeb ac eglurder i'r trefniadau cyllidol yn y DU.

Rydym yn cydnabod bod Trysorlys EM wedi cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am wariant y tu allan i fformiwla Barnett yn y Datganiad mwyaf diweddar am Bolisi Cyllido. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i godi'r mater hwn, am y bydd gwell tryloywder yn helpu i sicrhau atebolrwydd, eglurder a thegwch. Fodd bynnag, mater i Drysorlys EM yw sicrhau ei fod yn cyflawni unrhyw ymrwymiadau a wnaed i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 12: Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo o ran sicrhau tryloywder cyllid drwy gyhoeddi ei gwaith cyfrifo ar gyfer cyllid canlyniadol yn dilyn cyhoeddiadau gwariant y DU.**

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion cyllid canlyniadol i'r Pwyllgor yn dilyn digwyddiadau cyllidol y DU. Gall fod yn anodd amcangyfrif yr effaith y mae cyhoeddiadau Llywodraeth y DU y tu allan i ddigwyddiadau cyllidol ei chael ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Gallant gynnwys cyllid o gyllidebau presennol neu gael eu gwrthbwyso gan ostyngiadau mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn aneglur ar adeg y cyhoeddiad. Fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 11, rydym yn parhau i godi mater tryloywder cyhoeddiadau ynghylch gwariant a chyllid canlyniadol gyda Llywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Rebecca Evans AS**
**Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**